Cynllun Strategol y Consortiwm Medi 2007 - Awst 2008

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gwaith a gaiff ei gyflawni drwy waith Consortiwm yn ystod 2007-2008 fel modd o gyflawni'r canlyniad trosgynnol o ganlyniadau gwell i ddisgyblion.

Yn 2006, cyflwynodd y Consortiwm gais llwyddiannus am arian o Gronfa Gwella Creu'r Cysylltiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru i archwilio'r potensial i ddatblygu gwaith Consortiwm ymhellach. Mae'r grant a dderbyniwyd, ynghyd â chyfraniadau gan bob un o'r chwe awdurdod wedi ariannu Prosiect Creu'r Cysylltiadau. Mae hyn wedi rhoi cyfle i'r Consortiwm gyflawni amrywiaeth o waith ymchwil a datblygu. O'r ymchwil hon, nodwyd nifer o feysydd blaenoriaeth i waith y consortiwm. (Gellir gweld manylion ychwanegol yn Adroddiad y Prosiect).

Caiff y camau gweithredu a amlinellir yn yr adroddiad eu cyflawni drwy waith y Consortiwm oherwydd ein bod yn cydnabod nad oes un ffordd o gydweithio sy'n addas i bob sefyllfa, ac mae'r continwwm yn darparu'r hyblygrwydd i sicrhau gweithio effeithiol ac effeithlon sy'n ychwanegu gwerth at waith pob awdurdod. Rydym yn diffinio gwaith Consortiwm fel sefyllfa lle mae rhai gwasanaethau, neu'r gwasanaethau i gyd yn dod at ei gilydd mewn amrywiaeth o ffyrdd a lle mae pob awdurdod yn y Consortiwm yn cadw cyfrifoldeb am gyflwyno safonau statudol y gwasanaeth. Mae gwaith y Consortiwm wedi'i bennu a'i gefnogi gan y chwe awdurdod.

Continwwm Gwaith y Consortiwm

Mae datblygiad gwaith y Consortiwm wedi'i arwain gan fodel sy'n cynnwys ffurfiau gwahanol ar gydweithio, o rwydweithio i integreiddio llwyr

Integreiddio Llwyr	Dyma ble mae gwaith Consortiwm yn cyflwyno gwasanaeth ar y cyd ar draws yr awdurdodau sy'n cyfranogi. Mae'r awdurdodau'n cronni cyllidebau ac adnoddau i ddarparu'r gwasanaeth
Cydweithredu	Dyma ble mae'r awdurdodau'n cydweithio ar fentrau penodol, gan rannu adnoddau a chyfrifoldebau, risgiau a gwobrau.
Cydweithio	Dyma ble mae'r awdurdodau'n cydweithio i ddatrys problemau, dileu rhwystrau a chynnig atebion
Cydlynu	Dyma ble mae'r awdurdodau'n alinio polisïau a gweithdrefnau, ac yn datblygu ymagweddau cyson
Rhwydweithio	Dyma ble mae'r awdurdodau'n rhannu gwybodaeth, yn trafod ymagweddau ac yn nodi arfer gorau. Maent hefyd yn meithrin ymddiriedaeth a pherthnasoedd proffesiynol cadarnhaol

Cynllun Strategol y Consortiwm 2007-2008

Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer 2007-2008, cydnabuwyd, er bod llawer o ffyrdd o wella wedi cael eu nodi o safbwynt gwella gwasanaethau, bod rhaid rhoi gallu gwaith consortiwm i gyflwyno gwelliannau yng nghyd-destun asesiad realistig o'r adnoddau staffio ac ariannol sy'n debygol o fod ar gael.

Mae Cynllun Strategol y Consortiwm ar gyfer y cyfnod rhwng mis Medi 2007 a mis Awst 2008 yn nodi'r llinynnau penodol canlynol i'w datblygu ymhellach:

Llinyn 1: Datblygu'r Gweithlu
Llinyn 2: Cyngor, Cefnogaeth a Herio
Llinyn 3: Llywodraethu a Datblygiad Sefydliadol

I roi'r cynllun hwn ar waith yn llawn, bydd angen arian cychwynnol ychwanegol a bydd cynnydd yn gyfyngedig heb arian o'r fath. Gan hynny, mae gweithrediadau wedi cael eu blaenoriaethu ac mae'r cynllun wedi cael ei wahanu i ddwy ran sy'n wahanol ond gyda chysylltiadau rhyngddynt.

Mae Rhan 1 yn nodi'r meysydd a'r gweithredoedd allweddol y gellir eu cyflawni gyda chronfa adnoddau bresennol yr awdurdodau.
Mae Rhan 2 yn canolbwyntio ar y gwaith na ellir ei gyflwyno nes bod arian ychwanegol yn cael ei gytuno.

Mae pob awdurdod yn ymroddedig i ddatblygu gwaith consortiwm a fydd yn galluogi blaengaredd a mesurau effeithlonrwydd drwy rymuso staff ac awdurdodau i gydweithio ac i wneud pethau'n wahanol.

Mae'r gwaith yn ymgymryd ag egwyddorion diwygio ar dair lefel, lle mae pawb dan sylw yn rhannu nod cyffredin, sef gwella canlyniadau i bobl ifanc. Bydd yn galluogi blaengaredd a mesurau effeithlonrwydd drwy rymuso staff ac awdurdodau i gydweithio i wneud pethau'n wahanol.

Cynllun Strategol y Consortiwm Medi 2007 - Awst 2008

Llinyn 1: Datblygu'r Gweithlu

Mae'r adran hon yn gysylltiedig â datblygu adnoddau dynol ar draws y Consortiwm: gwasanaethau ymgynghorol, arweinyddiaeth ysgolion, datblygiad proffesiynol, ailfodelu'r gweithlu a rheoli perfformiad.

Nod

Datblygu'r gweithlu ar draws y Consortiwm; personél mewn ysgolion, personél mewn awdurdodau lleol a phersonél sy'n ymwneud â gwaith y Consortiwm drwy gyfleoedd datblygu proffesiynol a rheoli perfformiad sy'n canolbwyntio ar godi safonau cyrhaeddiad a chyflawniad yr holl blant a phobl ifanc

Amcanion

1.1 Byddwn yn creu cyfleoedd datblygiad proffesiynol i athrawon, arweinwyr canolig a phenaethiaid, trwy gyfleoedd rhwydweithio, cyrsiau byrion, hyfforddiant achrededig a rheoli perfformiad.

1.2 Byddwn yn creu cyfleoedd datblygiad proffesiynol i gynorthwywyr addysgu a hyfforddwyr dysgu trwy gyrsiau byrion, hyfforddiant achrededig a rhaglenni asesu ar gyfer statws proffesiynol cenedlaethol.

1.3 Byddwn yn creu cyfleoedd i staff sy'n gweithio ym maes gwella ysgolion awdurdodau lleol a chonsortiwm trwy gyfleoedd rhwydweithio, cyrsiau byrion, hyfforddiant achrededig a thrwy sefydlu safonau consortiwm wedi'u cytuno ar gyfer gweithwyr proffesiynol gwella ysgolion.

Rhan 1: I'w gyflawni gydag arian gan yr Awdurdod Lleol

	Meini Prawf Llwyddiant	Camau gweithredu a Lefel y Continwwm	Cyfrifoldeb	Adnoddau	Cwblhau
CYG Cynllunio a Gweinyddu	• Cytunwyd ar ymagweddau cyson at ofynion y Gronfa Ysgolion Gwell (CYG) ac fe'u rhoddwyd ar waith • Nodwyd mesurau gwella effeithlonrwydd a chytunwyd ar gynlluniau sefydliadol	38. Datblygu ymagweddau cyson at ofynion Rhaglen y Gronfa Gwella Ysgolion (CGY) *Cydweithio* • Datblygu cynigion ar gyfer gwaith consortiwm *Cydweithio*	Grŵp Tasg a Gorffen	Hwyluso	Medi 2008

	Meini Prawf Llwyddiant	Camau gweithredu a Lefel y Continwwm	Cyfrifoldeb	Adnoddau	Cwblhau
Cyrsiau Byr a Digwyddiadau'r Rhwydwaith i Athrawon	• Rhaglen cyrsiau byr uchel ei hansawdd ar gyfer dysgu ac addysgu wedi'i chytuno a'i rhoi ar waith ar lefel y consortiwm a'r AALl.	28. Datblygu rhaglen cyrsiau byr swamwac, gan gynnwys digwyddiadau rhwydweithio a chyrsiau/digwyddiadau a gynhelir gan y Consortiwm ac Awdurdodau Lleol unigol *Cydweithio* • Gweithio gyda CAC(C) i fwyafu cyfleoedd datblygu staff mewn ysgolion a lledaenu canlyniadau bwrsariaethau a chyfnodau sabothol unigol. *Cydweithio*	Grŵp Tasg a Gorffen	Hwyluso	Gorffennaf 2008
Datblygiad Proffesiynol i Reolwyr Canol Ysgolion	• Modiwl wedi'i gwblhau'n llwyddiannus gan o leiaf deg o athrawon. • Gwerthusiadau cadarnhaol gan gyfranogwyr a CACC	• Cynnal peilot o'r modiwl ar gyfer Rhaglen Athrawon Siartredig *Integreiddio Llwyr*	Comisiynwyd	Tendr gyda CACC	Gorffennaf 2008
	• Rhaglen datblygu proffesiynol sy'n addas i'r diben i reolwyr canol ysgolion wedi'i chytuno ac wedi'i rhoi ar waith. • Gwerthusiadau cadarnhaol gan gyfranogwyr	6. Datblygu rhaglen hyfforddiant Arweinyddiaeth a Rheolaeth Ganol Ysgolion *Integreiddio Llwyr* 7. Cyflwyno rhaglen hyfforddiant Arweinyddiaeth a Rheolaeth Ganol y Consortiwm i Ysgolion *Integreiddio Llwyr*	Grŵp Tasg a Gorffen	Hwyluso	Rhagfyr 2007 Rhagfyr 2008
Datblygiad Proffesiynol i Uwch Arweinwyr Ysgolion	• Ymchwil wedi'i chyflawni i nodi anghenion datblygol arweinwyr ysgolion • Canfyddiadau ymchwil sy'n hysbysu datblygiad rhaglenni datblygu penaethiaid ac uwch-arweinwyr.	29. Datblygu rhaglen i'r Consortiwm ar gyfer datblygiad Proffesiynol Penaethiaid Archwilio opsiynau ar gyfer rhaglen achredu. *Cydweithio*	Grŵp Tasg a Gorffen	Hwyluso	Mawrth 2008

	Meini Prawf Llwyddiant	Camau gweithredu a Lefel y Continwwm	Cyfrifoldeb	Adnoddau	Cwblhau

Datblygiad proffesiynol i benaethiaid	• Rhaglen Sefydlu Broffesiynol i Benaethiaid (PHIP) wedi'i hygyrchu gan yr holl benaethiaid sydd newydd ymgymryd â'r swydd	3. Cyflwyno'r Rhaglen Sefydlu Broffesiynol i Benaethiaid (PHIP) drwy waith consortiwm, gan gynnwys darpariaeth fentora sy'n briodol ar gyfer y lleoliad *Integreiddio Llwyr*	Gwasanaethau Ymgynghorol Grŵp Gweithredol	Ariannu gan SERCO/LICC	Mawrth 2008
Datblygiad Proffesiynol i Staff Cefnogi Ysgolion	Trydydd cylch asesu CALU wedi'i gwblhau	• Parhau ag Asesiadau ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (CALU) *Integreiddio Llwyr*	Cydlynydd	CLG gyda LICC	Gorffennaf 2008
	• Rhaglen datblygu proffesiynol well ac effeithiol i Gynorthwywyr Addysgu a Staff Cefnogi wedi'i rhoi ar waith	8 Mae hyfforddiant archwilio ar gael gan yr holl ddarparwyr ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu'r Consortiwm, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer ANC *Integreiddio Llwyr* 34 Mae hyfforddiant archwilio ar gael gan yr holl ddarparwyr ar gyfer Staff Cefnogi'r Consortiwm, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer NVQ *Cydweithio* • Defnyddio dadansoddiad i hysbysu datblygiad y Fframwaith *Cydweithio*	Comisiynwyd	CLG gyda LICC	Rhagfyr 2007
		• Datblygu cynllun cyflwyno ar gyfer rhoi modiwlau hyfforddi CA presennol ar waith, wedi'u datblygu drwy waith y consortiwm Cydweithredu	Grŵp Tasg a Gorffen	Hwyluso	Mawrth 2008
Ailfodelu'r Gweithlu	• Pob awdurdod ac ysgol yn rhoi'r Cytundeb Gweithlu Cenedlaethol ar waith	• Darparu cefnogaeth, cyngor ac arweiniad i ysgolion ynghylch rhoi'r Cytundeb Gweithlu Cenedlaethol ar waith *Cydweithredu*	Grŵp Ailfodelu'r Gweithlu	Hwyluso	Gorffennaf 2008

Llinyn 1 Rhan 2 - nid oes modd dyrannu camau gweithredu nes i ariannu ychwanegol gael ei drefnu					
	Meini Prawf Llwyddiant	**Camau gweithredu**	**Cyfrifoldeb dros dro**	**Adnoddau**	**Cwblhau**
Datblygiad Proffesiynol i Wasanaethau Ymgynghorol	• Gwerthusiad cadarnhaol gan gyfranogwyr • Deilliannau'r digwyddiadau'n cyfeirio cynllunio yn y dyfodol	30. Digwyddiadau hyfforddi proffesiynol ar y cyd ar gyfer Staff Ymgynghorol *Cydweithrio*	Gwasanaethau Ymgynghorol/ DPP Grŵp Gweithredol		
	• Awdurdodau'n elwa ar weithio fel Consortiwm • Gweithdrefnau hunanwerthuso wedi'u rhannu a rhaglen gwerthuso cyfoedion wedi'i chynllunio. • Defnydd presennol o TGCh mewn Cerddoriaeth wedi'i archwilio ac arfer da wedi'i rannu	25. Datblygu DPP ar y cyd a'i gyflwyno ar gyfer staff y gwasanaeth cerddoriaeth *Cydweithio* 35. Trefnu a datblygu cyfleoedd perfformio ar y cyd ar draws y Consortiwm *Cydweithio* 62. Rhannu arfer da o ran hunanwerthuso a hwyluso gwerthuso cydweithwyr yn y Gwasanaethau Cerddoriaeth *Cydweithredu* 73. Ymchwilio i'r defnydd o TGCh ar draws y Consortiwm, gan weithio tuag at rannu arbenigedd, adnoddau a chyfarpar yn y Gwasanaethau Cerddoriaeth *Cydlynu*	Gwasanaethau Ymgynghorol/ DPP Grŵp Gweithredol		
Datblygiad Proffesiynol i staff ysgolion	• Archwilio a nodi anghenion DP athrawon wedi'i roi ar waith.	33. Archwilio darpariaeth hyfforddi DPP ysgol bresennol fel sail i gynllunio yn y dyfodol. *Cydweithredu* • Nodi anghenion DPP ar amrywiaeth o lefelau i alluogi anghenion cyfatebol ar draws y consortiwm	Gwasanaethau Ymgynghorol/ DPP Grŵp Gweithredol		

		Cydweithredu			

	Meini Prawf Llwyddiant	Camau gweithredu a Lefel y Continwwm	Cyfrifoldeb	Adnoddau	Cwblhau
Datblygiad proffesiynol i Staff Cefnogi	• Rhaglen wedi'i chwblhau gan y garfan gyntaf	• Datblygu rhaglen/fframwaith hyfforddi i'r Consortiwm ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu sy'n ffocysu'n bennaf ar y dosbarth *Cydweithredu*	Grŵp Tasg a Gorffen		
	• Rhaglen wedi'i chwblhau gan y garfan gyntaf	• Datblygu hyfforddiant achrededig ar draws y consortiwm ar gyfer staff cefnogi, gan gynnwys darparu NVQ. *Cydweithredu*	Grŵp Tasg a Gorffen		

Llinyn 2
Cyngor, Cefnogaeth a Her

Mae'r adran hon yn gysylltiedig â'r Cyfnod Sylfaen, Llwybrau Dysgu 14-19, Gorchmynion Cwricwlwm 2008, Cynllunio Pontio, Ysgolion yn eu Cymunedau, Cynhwysiad ac AAA, Agenda'r Plant, Gwasanaethau Cerddoriaeth ac Addysg Awyr Agored

Nod
Darparu cyngor, cefnogaeth a her i ysgolion ac awdurdodau lleol mewn meysydd y cytunwyd arnynt i godi safonau, noddi arloesedd a sicrhau newidiadau sefydliadol
Amcanion
2.1-2.11 Byddwn yn darparu cyngor, cefnogaeth a her i ysgolion ac awdurdodau lleol mewn meysydd y cytunwyd arnynt i godi safonau, noddi arloesedd a sicrhau newidiadau sefydliadol

Rhan 1: I'w gyflawni gydag arian gan yr Awdurdod Lleol

	Meini Prawf Llwyddiant	Camau gweithredu a Lefel y Continwwm	Cyfrifoldeb	Adnoddau	Cwblhau
Safonau ar gyfer Cyngor, Cefnogaeth a Her	• Cysondeb o ran gweithgareddau cynghori, cefnogi a herio	18. Cadarnhau'r safonau a ddisgwylir gan weithwyr proffesiynol gwella ysgolion wrth weithio ar draws ffiniau dros y Consortiwm. Bydd y safonau'n seiliedig ar y Safonau Proffesiynol Cenedlaethol drafft *Cydweithio*	Grŵp Tasg a Gorffen	Hwyluso	Rhag 2007
RHAGORI	• Cydymffurfiwyd â thelerau ac amodau grant RHAGORI LlCC	11. Cydlynu monitro a gwerthuso RHAGORI i gynnwys cwblhau adroddiad monitro a gwerthuso blwyddyn 1 a Chynllun Gweithredu blwyddyn 2 *Integreiddio Llwyr*	Grŵp Gweithredol RHAGORI	Arian grant gan LlCC	Awst 2008
Rheoli Perfformiad i Benaethiaid	• Cynhaliwyd darpariaeth effeithlon ac effeithiol i reoli perfformiad Penaethiaid	1. Gwaith pellach i ddatblygu amrywiaeth o ganllawiau ar gyfer Llywodraethwyr a Phenaethiaid ar Reoli Perfformiad i Benaethiaid *Integreiddio Llwyr* 10. Parhau i reoli Rheoli Perfformiad Penaethiaid, gan gynnwys defnyddio	Grŵp Gweithredol RhP	Amser cydlynwyr Amser gweinyddwyr	Mawrth 2008 Awst 2008

		Ymgynghorwyr Allanol *Integreiddio Llwyr* 43. Cyflwyno Hyfforddiant Rheoli Perfformiad i Lywodraethwyr a Phenaethiaid *Cydweithio*			Awst 2008
	Meini Prawf Llwyddiant	**Camau gweithredu a Lefel y Continwwm**	**Cyfrifoldeb**	**Adnoddau**	**Cwblhau**
Pontio	• Sgiliau meddwl wedi'u hintegreiddio i Gynlluniau Pontio	37. Datblygu'r Fframwaith Sgiliau ar gyfer trosglwyddo CA2 - CA3, gan ganolbwyntio ar y cwricwlwm sy'n seiliedig ar sgiliau *Cydweithredu*	Pontio Grŵp Gweithredol	Arian pontio	Medi 2008
	• Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i ysgolion ynghylch y Fframwaith Cynlluniau Pontio Statudol Cyffredin	78. Rhannu gwybodaeth ar weithredu'r Fframwaith Cyffredin ar gyfer Cynlluniau Trosglwyddo Statudol a chyngor ac arweiniad i ysgolion. *Cydweithredu*		Arian pontio	Mai 2007
	• Hwyluswyd tracio disgyblion unigol ar draws ffiniau • Mae system effeithiol ar waith i rannu data disgyblion ar draws ffiniau.	51. Sefydlu protocol ar gyfer trefniadau a rheoli adnoddau lle trosglwyddir disgyblion ar draws ffiniau, gan gynnwys trosglwyddo uwchradd *Cydweithredu*		Arian pontio	Medi 2007
14 - 19	• Yr ail garfan o hyfforddwyr dysgu'n cwblhau'r rhaglen	4. Datblygu Rhaglen Sefydlu Broffesiynol gyson i Hyfforddwyr Dysgu *Cydweithio* 5. Cyflwyno Rhaglen Datblygu Proffesiynol achrededig ar gyfer Hyfforddwyr Dysgu *Cydweithredu*	Grŵp Gweithredol 14-19	Hwyluso	Ebrill 2008

	• Meysydd allweddol wedi'u nodi ym mhob CDRhB ac wedi'u cysylltu'n glir â gwaith y Consortiwm	44. Datblygu Cynlluniau Datblygu'r Rhwydwaith Blynyddol (CBDRh) *Cydlynu* 72. Rhannu modelau cyflwyno'r Craidd Dysgu 14-19 *Cydweithredu* 74. Rhannu ymagweddau ar Sgiliau Allweddol mewn darpariaeth 14-19 *Cydlynu*		Hwyluso	Mehefin 2008 Mehefin 2008 Mehefin 2008
	Meini Prawf Llwyddiant	**Camau gweithredu a Lefel y Continwwm**	**Cyfrifoldeb**	**Adnoddau**	**Cwblhau**
Cyfnod Sylfaen	• Cynllun gweithredu ar waith ar gyfer datblygiad a chefnogaeth proffesiynol yn y Cyfnod Sylfaen • Rhaglen hyfforddiant a chefnogaeth gynlluniedig wedi'i chyhoeddi ar gyfer rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith	26. Datblygu Cynllun Gweithredu i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth ar draws y Consortiwm ar gyfer rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith, gan gynnwys Blynyddoedd 1 a 2 a phontio i Flwyddyn 3, ynghyd â'r goblygiadau o ran dysgu ac addysgu *Cydweithio* 27. Cyflwyno hyfforddiant a chefnogaeth ar draws y Consortiwm ar gyfer rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn y Meithrin a'r Derbyn *Cydweithio* • Gweithio gyda CAC(C) i gyflwyno digwyddiad lledaenu gwybodaeth ar draws y consortiwm i ysgolion ynghylch rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith	Grŵp Gweithredol y Cyfnod Sylfaen	Grant gan LlCC, Ariannu gan CAC(C) a'r ALl	Hyd 2007 Awst 2008 Awst 2008

Cynhwysiad	• Cyfeiriad strategol ynghylch gwaith Consortiwm ar gyfer ADY a Chynhwysiad wedi'i gytuno ac ar waith	• Pennu ymagwedd strategol at waith Consortiwm ar faterion Cynhwysiad. *Cydweithredu*	Grŵp Strategol Cynhwysiad	Hwyluso	Rhag 2007

Llinyn 2 Rhan 2 - nid oes modd dyrannu camau gweithredu nes i ariannu ychwanegol gael ei drefnu					
	Meini Prawf Llwyddiant	**Camau gweithredu**	**Dros dro Cyfrifoldeb**	**Adnoddau**	**Cwblhau**
Datblygu Gwasanaethau Ymgynghorol	• Safonau gwaith cyson yn y gwasanaethau ymgynghorol ar draws y consortiwm.	31. Datblygu fframwaith Datblygu Proffesiynol ar gyfer Staff Ymgynghorol ar draws y Consortiwm *Cydweithio*	Gwasanaethau Ymgynghorol Grŵp Gweithredol		
	• Mesurau gwella effeithlonrwydd wedi'u cyflawni	Nodi meysydd lle gall gwaith consortiwm wella effeithlonrwydd, mwyafu gallu a lleihau dyblygu gwasanaethau ymgynghorol *Cydweithio* 57. Gweithredu camau sy'n deillio o'r adolygiad o'r Gwasanaethau Ymgynghorol er mwyn mwyafu'r gallu presennol ac anelu at ddarparu ar gyfer anghydraddoldebau darpariaeth yn y Gwasanaethau Ymgynghori *Cydweithio* 21. Targedu meysydd allweddol lle gallwn wneud ein gwasanaethau'n fwy ymatebol, darparu gwell mynediad a gwella'r ffordd rydym yn cynnwys cwsmeriaid *Cydweithredu*	Tîm Datblygu a a Gwasanaethau Ymgynghorol Grŵp Gweithredol Tîm Datblygu a a Gwasanaethau Ymgynghorol Grŵp Gweithredol		

	Meini Prawf Llwyddiant	Camau gweithredu	Dros dro Cyfrifoldeb	Adnoddau	Cwblhau
Datblygu Gwasanaethau Ymgynghorol	• Argymhellion yr astudiaeth dichonoldeb wedi'u rhoi ar waith	40. Cynnal astudiaeth dichonoldeb i sefydlu gwasanaeth arolygu'r Consortiwm *Cydweithio*	Tîm Datblygu a a Gwasanaethau Ymgynghorol Grŵp Gweithredol		
Rheoli Perfformiad	• Polisïau rheoli perfformiad wedi'u rhoi ar waith a/neu eu hadolygu ym mhob lleoliad ansafonol	9. Darparu cyngor, cefnogaeth a hyfforddiant o ran Rheoli Perfformiad ar gyfer athrawon mewn lleoliadau ansafonol *Cydweithio* Darparu arweiniad i ysgolion ynghylch adolygu polisïau rheoli perfformiad *Cydweithio*	Rheoli Perfformiad Grŵp Gweithredol Cydlynydd		
Hunan Werthuso Ysgolion	• Canllawiau wedi'u dosbarthu i bob ysgol	45. Datblygu arweiniad y Consortiwm ar hunanwerthuso ysgolion *Cydweithredu*	Grŵp Gweithredol Ymgynghorol/DPP		
Y Cyfnod Sylfaen	• Cyfleoedd rhwydweithio'n galluogi rhannu arfer da yn well	77. Rhannu deilliannau monitro a gwerthuso lleoliadau peilot gweithredu'r Cyfnod Sylfaen. *Rhwydweithio*	Grŵp Gweithredol y Cyfnod Sylfaen		

	Meini Prawf Llwyddiant	Camau gweithredu	Dros dro Cyfrifoldeb	Adnoddau	Cwblhau
Arweiniad Cwricwlaidd	• Y consortiwm yn cydweithredu i ymdrin ag anghenion ar draws meysydd cwricwlaidd CA2 - 5	32. Datblygu gwaith consortiwm i ymdrin â'r anghenion hyfforddi sy'n gysylltiedig â'r gofynion cwricwlaidd newydd ar gyfer CA2-5 *Cydweithredu* 36. Datblygu mecanwaith i ddarparu cefnogaeth, cyngor ac arweiniad i'r Consortiwm a chynhyrchu Cynllun Gweithredu ar gyfer gweithredu'r Pynciau Sylfaen *Cydlynu* 47. Ymchwilio i strategaethau effeithiol sydd ag effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion yn y cyfnodau canlynol a'u rhannu: • CA4 mewn TGCh, DT, Gwyddoniaeth, Cymraeg Iaith Gyntaf a Chelf • CA3 mewn Cymraeg Iaith Gyntaf, Mathemateg a Saesneg • CA2 mewn Saesneg, Cymraeg Iaith Gyntaf a Gwyddoniaeth *Cydlynu* 58. Adolygu darpariaeth Ieithoedd Tramor Modern ar draws y Consortiwm gyda golwg ar wella mynediad, cofrestriadau a safonau *Cydweithio*	Tîm Datblygu Grŵp Gweithredol Ymgynghorol/DPP		

	Meini Prawf Llwyddiant	Camau gweithredu	Dros dro Cyfrifoldeb	Adnoddau	Cwblhau
Safonau	• Asesiadau athrawon cyson ar waith	12. Datblygu systemau i hwyluso cysondeb mewn asesu er mwyn cael effaith bositif ar safonau *Cydlynu*	Is-grŵp Tasg a Gorffen		
	• Canfyddiadau wedi'u dadansoddi a chytunwyd ar gamau gweithredu priodol	• Strategaethau effeithiol i ddatblygu pynciau lle ceir gwahaniaeth sylweddol o ran perfformiad ar draws y Consortiwm yng Nghyfnod Allweddol 4, sy'n cael eu harchwilio a'u rhannu gan grwpiau ymgynghorol. *Cydlynu*	Is-grŵp Tasg a Gorffen		
Addysg Awyr Agored	• Hyfforddiant wedi'i drefnu gan y Consortiwm ar gyfer Addysg Awyr Agored • Cyngor ac arweiniad cenedlaethol wedi'u lledaenu i bob ysgol. • System fonitro gytunedig ar effeithiolrwydd y Gwasanaeth Addysg Awyr Agored wedi'i rhoi ar waith.	48. Lledaenu a chefnogi arweiniad cenedlaethol newydd a gyhoeddir gan yr awdurdod Addysg Awyr Agored *Cydlynu* 61. Cydlynu a threfnu hyfforddiant y Consortiwm ar gyfer Addysg Awyr Agored *Cydlynu* 65. Monitro effeithiolrwydd Addysg Awyr Agored o ran ansawdd a diogelwch *Cydlynu* 71. Cyfrannu at Banel yr Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored (YAAA) *Rhwydweithio*	Grŵp Gweithredol		

	Meini Prawf Llwyddiant	Camau gweithredu	Dros dro Cyfrifoldeb	Adnoddau	Cwblhau
Anghenion Dysgu Ychwanegol	• Gwell darpariaeth ranbarthol ar gyfer anableddau llai cyffredin sy'n diwallu'r angen • Cynllun cytunedig ar gyfer ymagwedd ar y cyd at Anawsterau Emosiynol, Cymdeithasol ac Ymddygiadol yn ei le • Ymagweddau ar ADY sydd wedi'u rhannu	46. Cynnal adolygiad o gynnydd plant ag AAA a phlant o ardaloedd sy'n ddifreintiedig yn gymdeithasol ac yn economaidd. *Cydweithredu* 49. Adolygu darpariaeth ranbarthol o ran Anableddau Llai Cyffredin (Ariannu Cyfalaf) *Cydweithredu* 50. Datblygu ymagweddau ar y cyd o ran y ddarpariaeth ar gyfer Anawsterau Emosiynol, Cymdeithasol ac Ymddygiadol (AECY) *Cydlynu* 53. Datblygu Protocolau ac Arfer ar gyfer gweithio gyda phlant yn ysgolion yr Awdurdod lle mae'r plant yn 'perthyn' i awdurdodau eraill *Cydweithredu* 63. Ymateb ar y cyd i fentrau AAA newydd *Rhwydweithio* 75. Rhannu arfer o ran gweithio gydag asiantaethau eraill i gefnogi Plant a Phobl Ifanc ag AAA *Rhwydweithio* 76. Rhannu ymagweddau at gyrhaeddiad addysg PDG (Plant sy'n Derbyn Gofal) *Rhwydweithio*	Grŵp Gweithredol		

Llinyn 3 Llywodraethu a Datblygiad Sefydliadol

Mae'r adran hon yn gysylltiedig â phennu cyfeiriad strategol i waith y Consortiwm ac adeiladu gallu er mwyn cyflawni gwaith Consortiwm

Nod

Sefydlu strwythur a phroses lywodraethu effeithiol ar gyfer gwelliant parhaus mewn ansawdd er mwyn adeiladu gallu ar draws y Consortiwm drwy ddatblygu gwaith Consortiwm sy'n flaengar, yn hyblyg ac yn ymatebol

Amcanion

3.1 Byddwn yn sicrhau arweinyddiaeth strategol effeithiol a bod gwaith y Consortiwm yn cael ei reoli mewn modd rhagweithiol a hyblyg sy'n ymatebol i addysg ac agenda newidiol Plant

3.2 Byddwn yn sicrhau bod y Consortiwm yn sefydliad atebol, ymatebol ac effeithiol gydag isadeiledd cadarn a systemau ar waith i sicrhau gwelliant parhaus o ran ansawdd a chraffu gan gyrff perthnasol

3.3 Byddwn yn cynorthwyo adolygu a datblygu gwasanaethau gwelliant ysgol ar draws y Consortiwm i gynyddu gallu a datblygu partneriaethau i gefnogi gwelliant a chynhwysiad ysgol

3.4 Byddwn yn ystyried dichonolrwydd gwasanaeth Consortiwm ar gyfer gwasanaeth Adnoddau Dynol pwrpasol i ysgolion a chydweithio er mwyn datblygu caffael ar gyfer prydau ysgol.

3.5 Byddwn yn cynnal ymchwil bellach i safonau ar draws y Consortiwm, datblygu data perfformiad ysgol, meincnodi, rhannu data ariannol ac adolygu'r posibilrwydd o sefydlu uned ddata ar gyfer y Consortiwm.

Rhan 1 : I'w gyflawni gydag arian gan yr Awdurdod Lleol

	Meini Prawf Llwyddiant	Camau gweithredu a Lefel y Continwwm	Cyfrifoldeb	Adnoddau	Cwblhau
Strwythur Llywodraethu	• Strwythur llywodraethu sy'n addas i'r diben sy'n cael ei dderbyn, ei gefnogi a'i roi ar waith yn llawn gan aelodau etholedig a Chyfarwyddwyr	14 Adolygu model Llywodraethu'r Consortiwm i sicrhau ei fod yn addas i'r diben. *Integreiddio Llwyr* 13 Datblygu gweledigaeth y Consortiwm a'i gynlluniau strategol ar gyfer gweithio mewn consortiwm ac adeiladu gallu. *Integreiddio Llwyr* • Adolygu strwythur y grŵp gweithredol Nodi anghenion hwyluso a brocera *Integreiddio Llwyr* • Datblygu disgrifiadau o'r rolau hwyluso a brocera *Integreiddio Llwyr* • Nodi meysydd penodol lle mae data ymchwil yn nodi tanberfformiad neu bynciau sy'n brin o ddisgyblion a datblygu trefniadau brocera sy'n canolbwyntio ar fodloni'r anghenion a	Y Grŵp Strategol a'r & Tîm Datblygu	Amser y Tîm Datblygu	Mawrth 2008 Awst 2008

		nodwyd. *Integreiddio Llwyr*			
	Meini Prawf Llwyddiant	**Camau gweithredu a Lefel y Continwwm**	**Cyfrifoldeb**	**Adnoddau**	**Cwblhau**
Strwythur Llywodraethu	• Mae mecanweithiau llywodraethu'n dangos yr ymateb i faterion a godir gan benaethiaid a grwpiau perthnasol eraill • Presenoldeb 80% ym mhob cyfarfod fforwm y penaethiaid	22. Cynnal a datblygu fforwm y penaethiaid ymhellach, gyda llais a chynrychioliad strategol gan yr holl sectorau addysg *Integreiddio Llwyr* 17. Gwrando ar benaethiaid a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes addysg ynghylch eu barn ar sut y gellir gwella ac estyn gwasanaethau i ysgolion. *Integreiddio Llwyr* 21 Trefnu o leiaf 6 chyfarfod y flwyddyn *Integreiddio Llwyr*	Grŵp Strategol Ehangach Tîm Datblygu	Amser y Tîm Datblygu	Awst 2008
Gwella Ansawdd yn Barhaus	• Grŵp rheoli strategol ymroddedig, rhagweithiol ac atebol sy'n gwbl weithredol • Presenoldeb 100% yng nghyfarfodydd misol y grŵp strategol • Isadeiledd a systemau cadarn sy'n sicrhau ansawdd yn effeithiol ar bob lefel • Staff ac aelodau etholedig sy'n cydnabod gwerth rhoi cynlluniau ar waith ac yn cyfrannu'n weithredol at hynny	16 Noddi gwaith consortiwm i yrru meysydd datblygu penodol ymlaen *Integreiddio Llwyr* • Darparu cyfeiriad strategol er mwyn dechrau'r cynllun rhoi ar waith *Integreiddio Llwyr* • Datblygu system Gwella Ansawdd Parhaus a chynllun gweithredu cefnogol a fydd yn cyflwyno allbwn a chanlyniadau y cytunwyd arnynt *Cydweithio* 22 Cynnwys aelodau etholedig ac uwch swyddogion wrth graffu ar waith y Consortiwm. *Integreiddio Llwyr* 23 Datblygu a rhoi ar waith strategaeth gyfathrebu sy'n addas i'r diben ac sy'n defnyddio amrywiaeth o ymagweddau cyfathrebu i gyrraedd ysgolion, staff ac Awdurdodau *Integreiddio Llwyr* 14 Cynnal sianeli cyfathrebu clir ac atebolrwydd gydag aelodau etholedig ac uwch swyddogion ym mhob awdurdod	Grŵp Strategol Tîm Datblygu	Amser y Tîm Datblygu	Awst 2008

		Integreiddio Llwyr			
	Meini Prawf Llwyddiant	**Camau gweithredu**	**Dros dro Cyfrifoldeb**	**Adnoddau**	**Cwblhau**
Agenda ar Dair Lefel	• Cyflawnwyd llais unedig ar drefniadau polisi cenedlaethol • Ymatebodd y Consortiwm i'r holl ymgynghoriadau cenedlaethol ar faterion Addysg Gymraeg • Mae cyrff cenedlaethol, gan gynnwys LlCC yn cysylltu ag awdurdodau ar sail y Consortiwm • Gwelliannau effeithlonrwydd wedi'u nodi Gallu wedi'i fwyafu a dyblygu wedi'i leihau	15 Cyfrannu at addysg Gymraeg a'r Strategaeth a'r Polisi Diwygio ar Dair Lefel *Integreiddio Llwyr* 39 Parhau â'r adolygiad o'r Gwasanaethau Ymgynghorol *Cydweithio*	Grŵp Strategol	Amser y Grŵp Strategol	Awst 2008
Perfformiad	• Data perthnasol wedi'i rannu rhwng timau cyllid	79. Rhannu data cyllid, gweithdrefnau ac arferion yr awdurdod *Rhwydweithio*	Cyllid Grŵp Gweithredol	Hwyluso	Gorffennaf 2008
	• Effaith gwaith y Consortiwm wedi'i fesur yn erbyn targedau meincnodi	• Pennu targedau meincnodi *Integreiddio Llwyr* • Adolygu targedau *Integreiddio Llwyr*	Y Tîm Datblygu a Chomisiynu	Amser y Tîm Datblygu	Rhagfyr 2007 Gorffennaf 2008

Ysgolion yn eu Cymunedau	• Gwella dealltwriaeth a gwerthfawrogiad yr holl rhanddeiliaid o egwyddorion Ysgolion yn eu Cymunedau • Pecynnau hyfforddi ar gael i Benaethiaid, Llywodraethwyr ac Aelodau Etholedig.	64 Cynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd o ran Ysgolion yn eu Cymunedau ymhlith Penaethiaid, Llywodraethwyr ac Aelodau *Cydweithredu* 68. Rhannu arfer da ymysg Ysgolion yn eu Cymunedau *Rhwydweithio* 69. Rhannu strategaethau a ddefnyddir i annog ysgolion i ganolbwyntio ar eu cymunedau mewn ffordd sy'n briodol i'w hanghenion eu hunain a'r Consortiwm *Rhwydweithio*	Grŵp Ysgolion yn eu Cymunedau	Hwyluso	Awst 2008
	Meini Prawf Llwyddiant	**Camau gweithredu**	**Dros dro Cyfrifoldeb**	**Adnoddau**	**Cwblhau**
Cynllunio ar gyfer Plant a Phobl Ifanc	• Gwaith y Consortiwm wedi'i fwyafu i sicrhau hyfforddiant a chefnogaeth ansawdd uchel a chyson	20. Sicrhau gallu i reoli newid, ymateb i fentrau newydd, sicrhau arian newydd a chyfrannu at 5 Deilliant Allweddol Mae Pob Plentyn yn Bwysig a 7 Nod Allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru. *Cydweithio* 59. Cydweithredu i ddatblygu Cynllun Sengl i Blant a Phobl Ifanc *Cydweithredu* 60. Datblygu cysylltiadau gyda sefydliadau partneriaeth statudol ac anstatudol i gyfrannu at Gynllun Sengl Plant pob awdurdod *Cydlynu* 67. Hwyluso a datblygu ymatebion ac ymagweddau ar y cyd i'r Ddeddf Plant o ran datblygu Gwasanaethau Plant *Cydlynu*	Grŵp Gweithredol y Bartneriaeth	Swydd Ranbarthol a Ariennir gan CLlLC	Awst 2008 Rhag 2007 Awst 2008 Awst 2008

Llinyn 3 Rhan 2 - nid oes modd dyrannu camau gweithredu nes i ariannu ychwanegol gael ei drefnu					
	Meini Prawf Llwyddiant	**Camau gweithredu a Lefel y Continwwm**	**Dros dro Cyfrifoldeb**	**Adnoddau**	**Cwblhau**
Rheoli Newid	• Rhaglen Rheoli Newid y Consortiwm a pholisi gofal cwsmeriaid ar waith Mae staff yn deall y prosesau ac yn gweithio o fewn eu paramedrau	• Datblygu a rhoi ar waith raglen Rheoli Newid y Consortiwm a pholisi gofal cwsmeriaid *Cydweithio*	Grŵp Strategol Tîm Datblygu		
Perfformiad	• Argymhellion yr astudiaeth wedi'u hystyried a phenderfyniad wedi'i wneud ynghylch camau gweithredu priodol	19 Ymchwilio i ddata perfformiad ysgolion a'i ddatblygu i wella gweithio fel Consortiwm drwy astudiaeth dichonoldeb *Integreiddio Llwyr* 52. Sefydlu systemau i gynnal prosesau effeithiol ar gyfer rhannu data disgyblion ar draws ffiniau *Cydweithredu*	Grŵp Gweithredol Ymgynghorol/ DPP comisiynu		
Datblygu TGCh	• Strwythur TGCh effeithlon ac effeithiol ar waith sy'n hwyluso gweithio fel Consortiwm	• Isadeiledd presennol wedi'i adolygu a chynigion ar gyfer isadeiledd newydd wedi'u datblygu a'u costio *Integreiddio Llwyr*	Grŵp Strategol Cydlynydd Comisiynu		
Datblygu System Brocera	• Trefniadau brocera'n cynorthwyo wrth adeiladu gallu	• Datblygu cronfa ddata o'r sgiliau sydd ar gael o fewn Awdurdodau'r consortiwm *Cydweithio* • Datblygu trefniadau caffael ar gyfer brocera *Cydweithio* • Rhoi trefniadau brocera ar waith *Cydweithio*	Grŵp Strategol Tîm Datblygu		
Datblygu prynu ar y cyd	• Darbodion maint wedi'u rhoi ar waith wrth brynu nwyddau ansawdd uchel ar y cyd ar gyfer prydau ysgol	66. Sefydlu protocolau caffael prydau ysgol ar y cyd *Cydweithredu*	Grŵp Gweithredol Prydau Ysgol		